# Gwaith Ofcom yn ymgysylltu â phlant ynglŷn â'r Codau Diogelwch Plant drafft

## Ymgynghoriad ar amddiffyn plant rhag niwed ar-lein

### Cefndir

Yn ddiweddar, mae Ofcom wedi lansio ei ymgynghoriad ar amddiffyn plant ar-lein.

I lywio'r gwaith hwn, roedden ni wedi cwblhau rhaglen ymchwil helaeth, gan siarad â mwy na 15,000 o blant a mwy na 7,000 o rieni i ddeall eu profiadau ar-lein ac i ba raddau y maent yn agored i niwed. Nawr, rydym eisiau clywed barn plant am y Codau Diogelwch Plant drafft rydym wedi'u dylunio, ar sail eu profiadau nhw, i'w cadw'n fwy diogel ar-lein.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn gymhleth, yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth sensitif, a allai beri gofid, am niwed ar-lein. Er mwyn ymgynghori â phlant mae angen teilwra'r dull gweithredu i feithrin eu dealltwriaeth o'r cynigion mewn modd sensitif cyn gofyn am eu barn.

Rydym wedi comisiynu'r asiantaeth amlddisgyblaethol, Revealing Reality, i siarad â phlant o bob rhan o'r DU, i gael gwybod beth yw eu barn am ein Codau Diogelwch Plant drafft. Fel rhan o'r prosiect hwn, mae Revealing Reality ac Ofcom yn datblygu deunyddiau addas i blant am y codau, ac yn dylunio gweithgareddau fel gweithdai i rannu'r rhain.

Felly bydd modd cyfrannu safbwyntiau'r plant i'r broses ymgynghori, a'u hystyried ochr yn ochr â barn pawb arall sy'n ymateb, fel y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed. Rydym yn disgwyl dysgu llawer o'r prosiect hwn. Bydd hefyd yn ein helpu pan fydd Ofcom yn cynnal gweithgareddau ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori yn y dyfodol gyda phlant ac aelodau o'r cyhoedd.

Pwrpas y ddogfen hon yw amlinellu'r hyn rydym yn ei wneud, gan gynnwys dull gweithredu enghreifftiol ar gyfer ein prosiect, er mwyn i randdeiliaid gael rhagor o wybodaeth am y broses hon.

## Y dull a ddefnyddiwn i ymgynghori â phlant

Yn gynharach eleni, roedd tua 80 o blant wedi rhannu eu barn am fesurau diogelwch o'n hymgynghoriad ynghylch niwed anghyfreithlon yn ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein. I wneud hyn, roedd Praesidio Safeguarding wedi cynnal gweithdai mewn ysgolion yng Nghymru a Lloegr.

Er mwyn yr ymgynghoriad ar amddiffyn plant, bydd Revealing Reality yn siarad â rhwng 100 a 120 o blant yn y DU rhwng 8 a 17 oed, gan ddefnyddio cymysgedd o weithdai, cyfweliadau a thrafodaethau mewn grwpiau bach.

Mae'r dull gweithredu a ddefnyddiwn yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol.

- **Blaenoriaethu diogelwch a llesiant cyfranogwyr.** Mae'r holl gyfranogwyr yn cael gwybodaeth glir ymlaen llaw am yr hyn rydym yn ei wneud a pham, ac ni fyddant yn cymryd rhan oni bai eu bod nhw a'u rhieni'n rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Rydym yn dylunio'r deunyddiau i gael cydbwysedd rhwng yr angen i ddarparu gwybodaeth gefndirol berthnasol am niwed ar-lein sy'n cael sylw gan y codau, a lleihau'r risg o beri trallod i'r cyfranogwyr; bydd y deunyddiau hefyd yn cael eu teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Ein nod yw rhoi'r plant sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp mewn grwpiau gyda chyfoedion o gefndiroedd tebyg (ee grŵp blwyddyn, oedran, rhywedd), ac rydym yn datblygu protocol diogelu gyda gweithdrefnau clir rhag ofn y byddwn yn pryderu am les plentyn.
- **Sicrhau bod plant yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi yn ystod y broses.** Bydd pob cyfranogwr yn cymryd rhan mewn tri cham neu 'fannau cyswllt' gwahanol, fel eu bod yn cael cyfle i ystyried gwybodaeth, myfyrio ar hyn dros amser, a rhoi adborth ar rai pwyntiau. Yn ogystal â sicrhau bod deunyddiau'n hygyrch, yn weledol ddeniadol, a bod cyfleoedd i ofyn cwestiynau, bydd hwyluswyr o Revealing Reality, sydd â phrofiad o siarad â phlant am ddiogelwch ar-lein, yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu clywed, ee gwrando gweithredol, atgyfnerthu cadarnhaol, cymryd tro yn deg. Bydd sawl ffordd o gyfrannu, gan gynnwys cymysgedd o ymarferion unigol a grŵp, a fydd yn cynnwys gweithgareddau difyr a chyfranogol – fel archwilio senarios ac adegau pan fo angen cyfaddawdu – i helpu plant i ddeall ein cynigion ac ymateb iddynt. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd o gadarnhau ein bod wedi deall y prif bwyntiau a godwyd gan y plant er mwyn sicrhau ein bod wedi cynrychioli eu barn yn gywir, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfranogwyr pan fydd ein safbwynt ar y mesurau arfaethedig yn cael cyhoeddusrwydd.
- **Siarad â chynulleidfa sy'n amrywiol ac yn eithaf cynrychioladol.** Ein nod fydd cynnwys:
    - Plant ym mhob un o bedair gwlad y DU, o gymysgedd o ardaloedd daearyddol (ee trefol, gwledig) a grwpiau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
    - Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau a phlant â nodweddion gwarchodedig, fel grwpiau lleiafrifoedd ethnig, plant ag anableddau, a phlant sy'n eu hystyried eu hunain yn LHDTCIA+
    - Nifer gyfartal o gyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd, yn ogystal â chyfranogwyr â hunaniaethau rhyweddol eraill (ee anneuaidd)
    - Plant â chymysgedd o brofiadau sy'n ymwneud â bywyd ar-lein, gan gynnwys rhai sydd â mynediad mwy cyfyngedig at ddyfeisiau, a rhai eraill sydd â nifer fawr o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol ar-lein (ee plant sy'n cael eu hystyried yn ddylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol)

- Plant sydd â phrofiad blaenorol o niwed ar-lein yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad – fel anhwylderau bwyta a hunan-niweidio. Bydd ein gwaith ymgysylltu'n cael ei arwain gan gyfranogwyr, er enghraifft bydd unrhyw gyfranogwyr a allai fod mewn amgylchiadau bregus yn gallu cymryd rhan mewn dull y maent yn fwyaf cyfforddus ynddo (ee cyfweliad unigol).

Bydd hyn yn ein helpu i glywed amrywiaeth o safbwyntiau, a byddwn yn ystyried yr adborth er mwyn canfod themâu allweddol a sut mae'r rhain yn amrywio (ee yn ôl oedran).

## Sut bydd plant yn cymryd rhan?

Gofynnir i bob plentyn rannu eu barn dros dri cham, fel a ganlyn – mae'r dull ymgynghori cydgynghorol hwn yn galluogi plant fyfyrio gydag eraill, a thros amser, ar y Codau Diogelwch Plant drafft:

1. **Creu cyd-destun – gweithgaredd sy'n cael ei gwblhau gartref** lle maen nhw'n gwylio fideo am Ofcom, y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r codau diogelwch, ac yn ateb rhai cwestiynau am eu barn am y rhain.
2. **Ymgysylltu craidd – gweithdy, trafodaeth grŵp bach, neu gyfweliad**, sy'n digwydd yn eu cymuned leol neu yn yr ysgol – bydd yr union fformat yn dibynnu ar oedran a chefndir y plentyn/plant. Yn ystod y sesiwn hon byddant yn clywed mwy am y Codau Diogelwch Plant drafft, gwybodaeth gefndirol berthnasol (ee ar ba fathau o lwyfannau y mae hyn yn effeithio), ac yn trafod i ba raddau maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r mesurau arfaethedig, p'un a ydynt yn credu y bydd y mesurau arfaethedig yn effeithiol ai peidio, ac unrhyw newidiadau a fyddai'n eu gwneud yn fwy effeithiol yn eu barn nhw. Bydd y sesiynau'n cynnwys trafodaeth benodol ar fesurau arfaethedig y Cod Diogelwch Plant drafft.
3. **Dilyn i fyny a myfyrio** - Gweithgaredd dilynol a gaiff **ei gwblhau gartref**, tebyg i'r cyntaf, lle mae plant yn myfyrio ar sut brofiad yw cymryd rhan ac yn rhannu adborth i helpu i lywio gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

## Pa ddeunyddiau fydd y plant yn eu gweld a pha gwestiynau fydd yn cael eu gofyn iddyn nhw?

Ar adeg ysgrifennu hyn (Mehefin 2024) rydym wrthi'n datblygu'r deunyddiau i'w defnyddio yn ystod y prosiect hwn. Bydd gwahanol fersiynau o'r rhain ar gael ar gyfer cyfranogwyr, yn dibynnu ar eu cefndir (ee oedran), ac rydym hefyd yn mynd i ddefnyddio'r rhain yn hyblyg: er enghraifft, byddwn yn ystyried newid geiriad deunyddiau yn ystod y prosiect os daw i'r amlwg y gellid eu gwneud yn fwy hygyrch i blant. Bydd angen i ni fod yn hyblyg yn ein dull gweithredu mewn gweithdai neu gyfweliadau yn dibynnu ar ble mae'r sgwrs yn mynd, fel ein bod ni'n cael ein harwain gan gyfranogwyr.

Mae hefyd yn werth nodi bod y nifer fawr o fesurau arfaethedig yn y Codau Diogelwch Plant drafft yn golygu nad yw'n bosibl disgwyl i bob plentyn roi adborth ar bob mesur arfaethedig. Am y rheswm hwn, rydym yn gofyn i blant roi adborth mwy manwl ar rai mesurau arfaethedig nag eraill ac rydym yn blaenoriaethu'r rhai sy'n fwy amlwg yn rhan o brofiad plant fel defnyddwyr rheng flaen.[1]

Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi drafftio dull enghreifftiol o grwpio mesurau ac wedi ysgrifennu rhai cwestiynau posibl y gallem eu gofyn ar wahanol gamau yn y prosiect – mae hyn i'w weld ar y dudalen nesaf.

[1] Er enghraifft, rydym yn bwriadu rhoi llai o flaenoriaeth i fesurau ynghylch llywodraethu gwasanaeth ar-lein. Mae'r mesurau llywodraethu arfaethedig yn ymwneud â rheoli gwasanaeth ac yn mynd i'r afael â monitro mewnol, hyfforddi staff, safonau ar gyfer gweithwyr ac atebolrwydd uwch swyddogion, ymysg pethau eraill. Nid yw'r mesurau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â phrofiad defnyddiwr rheng flaen y mae plant yn ei gael ar wasanaeth, felly nid ydynt wedi cael blaenoriaeth ar gyfer trafodaeth fanwl. Rydym yn dal i chwilio am ffyrdd y gallai cyfranogwyr roi adborth ar y mesurau hyn petaent yn dymuno gwneud hynny.

# Dull drafft o strwythuro gwaith ymgysylltu Ofcom â phlant

Isod, ceir rhai cwestiynau y gellid eu gofyn i blant fel rhan o'n hymarfer ymgysylltu cydgynghorol.

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu craidd, bydd pob cyfranogwr yn canolbwyntio ar un thema, a'r mesurau Cod Diogelwch Plant drafft cysylltiedig sy'n cyfateb iddo. Gallai'r mesurau fod yn eithaf thematig er mwyn eu trafod gyda'r plant, fel a ganlyn:

- **Mynediad at lwyfannau a gwefannau** – mesurau arfaethedig sy'n rheoli neu'n cyfyngu ar allu plant i gael mynediad at lwyfannau neu gynnwys penodol sy'n niweidiol i blant
    - Gallai'r thema hon ganolbwyntio ar fesurau arfaethedig i sicrhau oedran (ee AA1 – AA4)
- **Gwylio cynnwys sy'n addas i'w hoedran** – mesurau arfaethedig sydd â'r nod o sicrhau bod cynnwys sy'n niweidiol i blant yn llai amlwg, yn llai tebygol o gael ei argymell yn awtomatig, neu fod plant yn llai tebygol o gael eu hamlygu iddo
    - Gallai'r thema hon gynnwys mesurau arfaethedig ar gyfer system argymell (ee RS1 ac RS2), mesurau cymedroli cynnwys a chwilio (ee CM1, SM1 ac SM2) a mesurau ychwanegol ar gyfer sicrhau oedran (ee AA5 ac AA6)
- **Adnoddau i roi rheolaeth i ddefnyddwyr** – mesurau arfaethedig sy'n rhoi rheolaeth i blant dros eu hymateb i gynnwys sy'n niweidiol iddyn nhw ac i'w dulliau o ryngweithio â defnyddwyr eraill
    - Gallai'r thema hon gynnwys mesurau arfaethedig ar gyfer cymorth i ddefnyddwyr (ee US1 – US4) a mesurau arfaethedig sy'n canolbwyntio ar adroddiadau ac adborth gan ddefnyddwyr (ee UR2, UR3, RS3 ac SD1)
- **Cymorth i ddefnyddwyr** – mesurau arfaethedig i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad clir a hygyrch am wasanaeth
    - Gallai'r thema hon ganolbwyntio ar fesurau arfaethedig sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i blant (ee US5, US6, SD2, TS2, CM7)

# Cwestiynau posibl ar gyfer ymgysylltu

**Dyma rai cwestiynau** i sefydlu'r sefyllfa:

- Pan fyddwch chi ar-lein, beth yw'r pethau sy'n eich cadw chi'n ddiogel?
- Sut byddech chi'n teimlo pe bai mwy o bethau ar gael i'ch cadw chi'n ddiogel ar-lein?

**Gallai cwestiynau** cyffredinol fod yn berthnasol i'r Codau Diogelwch Plant drafft yn eu cyfanrwydd, i fesurau unigol, neu i grwpiau o fesurau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Pe bai'n rhaid i lwyfannau ar-lein ddilyn cynigion Ofcom, pa wahaniaeth, yn eich barn chi, y byddai hyn yn ei wneud i chi, ac i blant eraill?
- O'r hyn rydych chi wedi'i glywed, beth yw eich barn chi am gynigion Ofcom?
- Sut dylai cynigion Ofcom weithio mewn 'bywyd go iawn', ar y llwyfannau rydych chi'n eu defnyddio, er mwyn cadw plant yn fwy diogel ar-lein? Oes modd eu gwella?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar gyfer Ofcom?

Gellid ailedrych ar y cwestiynau cyffredinol ar ôl rhannu gwybodaeth â phlant am y cynigion a chwblhau gwahanol weithgareddau – fel:

- Disgrifio'r mesurau diogelwch arfaethedig mewn ffordd hygyrch;
- Esbonio pa niwed y mae'r mesurau arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael ag ef – gan wneud hynny mewn ffordd sensitif, wedi'i deilwra yn dibynnu ar oedran, nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwr/cyfranogwyr ifanc;
- Senarios am wahanol blant, i drafod yr effaith a gaiff cynigion ar wahanol unigolion;
- Ymarferion cyfaddawdu i drafod dewisiadau o ran pa reolau ddylai fodoli er mwyn cadw plant yn ddiogel ar-lein;
- Mwy o ymarferion gweledol – ee dewis emojis i ddangos sut mae gwahanol ddarnau o wybodaeth, er enghraifft senarios neu bobl ffuglennol, yn gwneud i'r cyfranogwyr deimlo.